



# UNSAIN
## Sefyll i fyny dros
# WEITHWYR CYMDEITHASOL







Mae **gwaith cymdeithasol** ymysg y proffesiynau caletaf. Ond mae yna gryfder mewn niferoedd. UNSAIN yw undeb mwyaf y Deyrnas Unedig, gydag 1.4 miliwn o aelodau, a'r undeb mwyaf ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach. Rydym yn cynrychioli 40,000 o weithwyr cymdeithasol sy'n gweithio ar draws yr ystod gyfan o gyflogwyr gwaith cymdeithasol.

Mae UNSAIN yn cynnal trafodaethau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i wella cyflogau, telerau ac amodau a sicrwydd swydd i bob gweithiwr cymdeithasol - ac mae ein cynrychiolwyr yn helpu sicrhau amgylchedd gwaith diogel.

UNISON
Cymru Wales







## Beth rydym yn ei wneud i chi:

- Eich cynrychioli a chynorthwyo ar faterion gwaith cymdeithasol yn y gweithle fel llwyth achosion
- Trafod ar gyfer eich cyflogau, amodau a phensiynau
- Ymgynghori â chi a'ch cynrychioli mewn unrhyw newidiadau yn y gweithle y mae eich cyflogwr yn eu cynnig
- Hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb yn y gweithle ac mewn cymdeithas

## Rydym yn ymgyrchu'n genedlaethol ar ran gweithwyr cymdeithasol i:

- Wella amodau gwaith gweithwyr cymdeithasol
- Hyrwyddo delwedd gadarnhaol o waith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol
- Buddsoddi mewn datblygu gweithwyr cymdeithasol
- Rhoi diwedd ar galedi ac ailadeiladu gwasanaethau cyhoeddus
- Rhoi diwedd ar breifateiddio iechyd a gofal cymdeithasol

## Yr undeb ar gyfer gweithwyr cymdeithasol

Ymunwch ag UNSAIN – i'ch diogelu ac i helpu i amddiffyn gweithwyr cymdeithasol. Byddwch hefyd yn cael mynediad i:

- Cefnogaeth gyfreithiol
- Stiwardiaid ac ymgyrchwyr gyda chefndir gwaith cymdeithasol
- Uned arbenigol i'ch cynrychioli ar faterion cofrestru proffesiynol
- Hyfforddiant am ddim
- Gostyngiadau
- Llinell gymorth

## Faint mae'n ei gostio?

Mae myfyrwyr sy'n aelodau yn talu £10 y flwyddyn trwy ddebyd uniongyrchol untro. Pan fyddwch chi'n gyflogedig, mae'r hyn rydych chi'n ei dalu yn dibynnu ar faint rydych chi'n ei ennill. Gweler **https://join.unison.org.uk/** i weld y costau.

**stand up**
for social work

Ymunwch ar-lein ar **joinunison.org** neu ffoniwch **0800 0 857 857.**

UNISON
Cymru Wales

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan UNSAIN, UNISON Centre, 130 Euston Road, Llundain NW1 2AY. CU/Ebrill 2022/26751/4316/UNP cyf 16108.